# Undeb yr Annibynwyr Cymraeg

## Defnyddio Deallusrwydd Artiffisial (DA)

Mae'r datblygiadau ym maes Deallusrwydd Artiffisial (DA o hyn allan) yn rai sylweddol, gan gynnig cymorth i ddysgu, ymchwilio a pharatoi. Fodd bynnag, dylid defnyddio DA yn gyfrifol er mwyn sicrhau cywirdeb gwybodaeth a ffeithiau, ynghyd â sicrhau fod unrhyw waith a gyflawnir gennych yn adlewyrchiad o'ch dealltwriaeth a'ch gwybodaeth chi. Does dim rheidrwydd i chi ddefnyddio DA wrth gwblhau unrhyw ymchwil neu dasg ynghlwm â'r hyfforddiant y byddwch yn ei gyflawni, ond os byddwch yn dymuno gwneud defnydd ohono, yna mae'n rhaid cadw cofnod manwl o'r defnydd a wneir, gan gynnwys pryd a lle y defnyddiwyd DA, pa ffynhonellau DA a ddefnyddiwyd, yr wybodaeth a fwydwyd i mewn gennych chi, ynghyd â'r wybodaeth a roddwyd drwy DA.

### Y defnydd o DA a ganiateir

- Nid yw pob aseiniad yn caniatáu'r defnydd o DA. Cymerwch amser i ddarllen yr atodiad isod yn llawn i sicrhau nad ydych yn tramgwyddo unrhyw reolau ynglŷn â'r defnydd o DA a ganiateir.
- Bydd defnyddio DA mewn ffyrdd na chaniateir yn cael ei ystyried fel camymddwyn. Gofalwch felly eich bod yn deall yn llawn beth yw'r defnydd a ganiateir / na chaniateir ar gyfer pob aseiniad drwy drafod gyda'r Cyfarwyddwr Hyfforddi a Datblygu.
- Gofalwch eich bod yn cydnabod yn llawn unrhyw ddefnydd a wneir o DA yn eich ffurflen datganiad sydd i'w chyflwyno gydag unrhyw waith ysgrifenedig.

### Y defnydd o DA a ganiateir

Pan fydd y defnydd o DA yn cael ei ganiatáu, gofalwch fod y gwaith terfynol yn adlewyrchu eich gwybodaeth a'ch sgiliau.

- Yr hyn fydd y tiwtor yn ei geisio drwy eich tasg ysgrifenedig yw'ch dealltwriaeth chi o'r pwnc dan sylw, a'ch gallu i ymdrin â'r pwnc yn gywir, yn ddeallus, ac o fewn y cyd-destun perthnasol. Nid yw aileirio'r hyn a gynhyrchir gan DA yn ddigon da nac yn dderbyniol. Bydd angen i chi berchnogi unrhyw waith a gyflawnir gennych.

- Gofalwch eich bod yn cadw cofnod manwl o'r defnydd a wneir o DA, gan gynnwys pryd a lle y defnyddiwyd DA, pa ffynhonellau DA a ddefnyddiwyd, yr wybodaeth a fwydwyd i mewn gennych, ynghyd â'r wybodaeth a roddwyd drwy DA. Pe gyfyd unrhyw gwestiwn gan y sawl fydd yn asesu'ch gwaith am eich defnydd o DA, bydd yr wybodaeth yma yn allweddol i gadarnhau na dorrwyd unrhyw ganllawiau. Gall y tiwtor neu gydlynydd y modiwl ofyn am yr wybodaeth yma wrth i chi gyflwyno eich gwaith.

- Ystyriwch os ydych yn or-ddibynol ar DA. Ydi'r defnydd o DA yn eich cyfyngu rhag datblygu'n academaidd a chanfod eich barn a'ch safbwynt eich hun am y pwnc? Cofiwch y gall gorddibyniaeth ar DA eich rhwystro rhag cyrraedd eich potensial personol. Gall hefyd eich cyfyngu rhag datblygu sgiliau ymchwil a dadansoddi – sgiliau a allai fod yn allweddol yn y dyfodol, a hynny mewn amgylchiadau nad ydynt yn caniatáu'r defnydd o DA.

## Cywirdeb DA

- Nid yw DA yn cael ei ystyried fel ffynhonell gwybodaeth ddibynadwy. Dylid cymryd amser i wirio unrhyw wybodaeth a geir drwy DA, ac ar ôl cadarnhau cywirdeb y wybodaeth, gyflwyno'r pwyntiau yn eich geiriau eich hun, gan gymhwyso'r wybodaeth mewn ffordd berthnasol.

- Nid yw DA yn rhoi'r cyd-destun i'r wybodaeth a roddir. Sicrhewch fod unrhyw wybodaeth yn dod o gyd-destun perthnasol i'r pwnc dan sylw gennych.

- Gofalwch nad yw'r wybodaeth a roddir gan DA yn unochrog, neu'n pwyso ar un farn yn ormodol. Gall rhaglenni DA fod wedi eu hamgodio i adlewyrchu safbwyntiau penodol yn unig.

## Defnyddio DA mewn modd moesegol i ehangu'ch gwybodaeth a'ch dealltwriaeth

- Prif ddiben unrhyw waith ysgrifenedig yw adlewyrchu eich gwybodaeth, eich dealltwriaeth a'ch gallu i ymdrin â'r pwnc o fewn gofynion y dasg a osodir. Gofalwch nad yw unrhyw ddefnydd a wneir o DA yn tanseilio'r dibenion sylfaenol hyn.

- Peidiwch â bwydo unrhyw wybodaeth bersonol neu gyfrinachol i mewn i raglenni DA heb wirio yn llawn beth yw eu polisi GDPR a diogelu data. Gall bwydo gwybodaeth o'r fath dreiddio i blatfformau gwybodaeth gyhoeddus.

- Ni ddylid dibynnu ar DA am gyngor neu gymorth personol megis iechyd a lles ar unrhyw gyfrif. Fel Undeb yr Annibynwyr, mae gennym gymorth proffesiynol ar gael i gynorthwyo unigolion ac i'w bugeilio. Eich person cyswllt fel myfyriwr ydi'r Cyfarwyddwr Hyfforddi a Datblygu, neu fe ellir cysylltu â'r Ysgrifennydd Cyffredinol.

- Eich cyfrifoldeb chi fel myfyriwr yw sicrhau bod y defnydd a wnewch o DA yn foesegol a chywir. Cyn cyflwyno unrhyw waith, ystyriwch:
    - Ydi’r defnydd o DA yn cael ei ganiatáu ar gyfer y gwaith ysgrifenedig hwn?
    - Ydi fy nefnydd o DA wedi bod yn unol â’r canllawiau uchod?
    - Ydi’r holl wybodaeth a gynhwysir yn gywir a pherthnasol?
    - Ydi fy llais i fel unigolyn i’w glywed yn y gwaith hwn?
    - Ydw i’n cyrraedd fy mhotensial personol yn y gwaith hwn, ac yn adlewyrchu fy safbwyntiau, fy syniadau, a fy llif meddwl?
    - Ydi’r casgliad rwy’n ei gyrraedd yn unol â’r hyn a gredaf?

## I gloi

Gall datblygu llythrennedd DA a’i ddefnyddio’n ofalus a deallus gyfoethogi’ch profiad dysgu a’ch gwybodaeth wrth sicrhau eich bod yn datblygu deallusrwydd ac ymdriniaeth lawn o’r pwnc o’ch safbwynt personol chi. Yr allwedd yw datblygu’r gallu i bwyso a mesur o safbwynt academaidd sut, pryd a pham i ddefnyddio DA.

Os oes gennych unrhyw amheuaeth neu gwestiwn, cysylltwch â’r Cyfarwyddwr Hyfforddi a Datblygu.